**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr  Brian Blakeley, Hugh Irving a Peter Owen. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol neu ragfarnus. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar bwyntiau o gywirdeb, derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2012 fel cofnod cywir.* |
| **5** | BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Trwyddedu (ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad) a'r Blaenoriaethau ar gyfer Adran Gweinyddu Trwyddedu ar gyfer y flwyddyn 2013/14.* |
| **6** | DIWEDDARIAD AR ADOLYGU FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU | ***PENDERFYNWYD*** *–*<br><br>*(a) derbyn a chydnabod yr adroddiad, a*<br><br>*(b) cyflwyno adolygiad llawn o ffïoedd a thaliadau i gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **7** | DEDDF DIWYGIO'R HEDDLU A CHYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL 2011 – ARDOLL HWYR Y NOS A GORCHYMYN CYFYNGU BORE CYNNAR | ***PENDERFYNWYD*** –<br><br>*(a) cydnabod cynnwys yr adroddiad ar Ardollau Hwyr y Nos a Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar, a*<br><br>*(b) peidio â chefnogi gwneud Gorchmynion Cyfyngu Bore Cynnar a phennu Ardollau Hwyr y Nos, a chyflwyno barn y Pwyllgor Trwyddedu i'r Cyngor Sir pan fyddai'n ystyried yr adroddiad ar y mater hwn.* |
| **8** | ADOLYGU DWY DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT | ***PENDERFYNWYD*** –<br><br>*(a) cydnabod bod Gyrrwr Rhif 040740 wedi llwyddo yn y prawf o wybodaeth gyrwyr a pheidio â chymryd camau pellach, a*<br><br>*(b) atal Gyrrwr Rhif 041605 nes bydd wedi cwblhau'r prawf gwybodaeth gyrwyr yn llwyddiannus. Pe na byddai'r Gyrrwr wedi llwyddo yn y prawf erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor (6 Mawrth 2013) byddai'r mater yn cael ei ddwyn gerbron y cyfarfod hwnnw i'w benderfynu. Byddai llwyddo yn y prawf yn ystod y cyfnod atal yn arwain at ddileu'r penderfyniad i'w atal.* |
| **9** | ADOLYGU TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU | ***PENDERFYNWYD*** *atal Gyrrwr Rhif 043844 rhag gyrru cerbydau hacni a cherbydau hur preifat am resymau diogelwch y cyhoedd a gofyn iddo fynd ar gwrs Ymwybyddiaeth* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 5 Rhagfyr 2012**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | HUR PREIFAT – GYRRWR RHIF 043844 | *Gyrru cyn dwyn y mater yn ôl gerbron cyfarfod nesaf y pwyllgor er mwyn asesu ymhellach ei addasrwydd i barhau fel gyrrwr trwyddedig ac ailystyried y penderfyniad i'w atal.* |
| **10** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 044879 | ***PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbydau hur preifat gan Ymgeisydd Rhif 044879.* |
| **11** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 044881 | ***PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais am drwyddedu gyrru cerbyd hacni a cherbydau hur preifat gan Ymgeisydd Rhif 044881 a rhoi rhybudd ar ddifrifoldeb ei drosedd a'i ymddygiad i'r dyfodol.* |